# Telerau ac Amodau'r Grantiau

## Gofynion ar gyfer gwneud cais

1. Byddwn yn gwrthod unrhyw gais am grant lle nad oes cyfrif banc gan y mudiad neu'r grŵp cymunedol er mwyn i ni drosglwyddo'r arian.
2. Rydym ond yn medru dyfarnu un grant ar gyfer pob mudiad.
3. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau sydd yn cynnwys hyrwyddo mudiadau corfforaethol, gweithgareddau gwleidyddol neu'n hyrwyddo unrhyw gredoau crefyddol. Byddwn yn ystyried prosiectau sydd yn cael eu harwain gan fudiadau crefyddol os ydynt yn elwa'r gymuned gyfan.
4. Ni fyddwn yn ystyried prosiectau sydd eisoes wedi digwydd neu wedi ei gwblhau cyn bod y grant yn cael ei dalu.

## Gwario'r grant cyllid

5. Nid oes hawl trosglwyddo'r grant i drydydd parti.
6. Mae ond modd defnyddio'r grant ar gyfer y dibenion sydd wedi eu hamlinellu gan eich mudiad yn y cais sydd wedi ei gymeradwyo gan Bartneriaeth Bwyd Sir Fynwy. Rydym yn deall fod gweithgareddau weithiau yn newid wrth iddynt ddatblygu neu o bosib yn cael eu canslo. Os nad ydych yn medru defnyddio'r grant ar gyfer y gweithgareddau sydd wedi eu nodi a bod newidiadau sylweddol yn debygol, yna rhaid i chi gysylltu gyda ni cyn gwario unrhyw ran o'r grant.
7. Rhaid gwario grantiau o fewn 6 mis o'u derbyn
8. Byddwn yn cynnal gwiriadau diogelu ariannol ar sampl o'r ceisiadau llwyddiannus. Felly, mae'r hawl gennym i ofyn i chi am dderbynebau. Byddwn angen gweld y derbynebau yma o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl i ni wneud y cais.

## Gwerthuso a'r wasg

9. Mae disgwyl bod unrhyw ddatganiadau i'r wasg sydd yn ymwneud gyda'r gwaith a ariennir yn cael eu rhannu gyda Phartneriaeth Bwyd Sir Fynwy.
10. Rhaid bod unrhyw gyhoeddusrwydd o'r gwaith a ariennir yn cyfeirio at Bartneriaeth Bwyd Sir Fynwy.
11. Byddwn yn anfon ffurflenni gwerthuso prosiect atoch tua 6 mis ar ôl talu'r grant, a disgwyliwn i chi eu llenwi. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi i ofyn i chi gymryd rhan mewn astudiaeth achos neu am ddiweddariadau pellach ar ôl i'r prosiect ddod i ben

## Arall

12. Bydd angen i chi ad-dalu grant os ydych yn mynd yn fethdalwr, yn mynd i law'r derbynnydd neu'n profi datodiad.
13. Bydd angen dychwelyd unrhyw gyllid grant sy'n parhau heb ei wario 6 mis ar ôl ei dderbyn ar 30ain Mawrth 2024 i Gyngor Sir Fynwy, y sefydliad sy'n cynnal Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy.
14. Os nad ydych yn cwrdd â'r gofynion sydd yn y dogfen hon, rydym yn cadw'r hawl i ail-hawlio rhan, neu'r holl gyllid, ar unrhyw adeg.

15. Mae diogelwch pawb sydd yn rhan o'ch gweithgaredd yn hynod bwysig. Defnyddiwch eich polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn ystyried y risgiau perthnasol, gan gynnwys diogelu plant a phobl ifanc neu oedolion sydd yn wynebu risgiau a'n mynychu eich gweithgareddau.

## Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

16. Ar gyfer unrhyw weithgareddau sydd yn ymwneud gyda bwyd, dylech ddilyn canllawiau diweddaraf yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
17. Rydym yn gofyn i chi yn ymatal rhag hyrwyddo neu gynnig unrhyw gyngor meddygol.
18. Diogelu Data a Chyfrinachedd - Bydd Cyngor Sir Fynwy, sydd yn gyfrifol am gynnal Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy, yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth sydd yn ymwneud gyda diogelu gwybodaeth bersonol gan gynnwys Deddf Diogelu 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU. Bydd y wybodaeth bersonol yr ydych yn darparu ar y ffurflen yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac ond yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartïon eraill at ddibenion gwerthuso. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw yn unol gyda'n polisi cadw gwybodaeth. Am fwy o wybodaeth am breifatrwydd, ewch os gwelwch yn dda i: https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/eich-preifatrwydd/